**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**

**10 HYDREF 2022**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Llun, 10 Hydref 2022.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Teresa Carberry **(Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Gina Maddison, Dave Mackie, Ryan McKeown, Andrew Parkhurst, David Richardson ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:** Lynn Bartlett, Jeanette Rock a Mrs Wendy White

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Mel Buckley (ar ran y Cynghorydd Carolyn Preece) a
Rob Davies (ar ran y Cynghorydd Jason Shallcross)

**CYFRANWYR:**

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, Y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden a Phrif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)
Uwch Reolwr Gwella Ysgolion a Martyn Froggett a David Edwards a Phil McTague (GwE) (ar gyfer cofnod rhif 23)
Rheolwr Cyllid Strategol – Ysgolion (ar gyfer cofnod rhif 25)
Uwch Reolwr (Newid Busnes a Chymorth)

**YN BRESENNOL:**

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 18. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 19. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyd-gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gynhaliwyd ar 30 Mehefin.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at dudalen 14 a gofynnodd a oedd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) wedi siarad â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Seicoleg Addysgol ynglŷn â phlant ag Anghenion Addysgol Arbennig. Gan nad oedd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn, cytunodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) siarad gyda hi ac adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Parkhurst yn dilyn y cyfarfod.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf a 29 Gorffennaf 2022.

Cynigodd y Cynghorydd Bill Crease bod y tair set o gofnodion yn gywir ac eiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Mehefin, 14 Gorffennaf a 29 Gorffennaf 2022 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 20. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol, a ddiwygiwyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf gan ymgorffori awgrymiadau a wnaed gan aelodau o'r Pwyllgor. Wrth gyfeirio at yr Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu, cadarnhaodd yr Hwylusydd bod yr holl gamau gweithredu bellach wedi'u cwblhau. Roedd un eitem yn dal i fod ar y gweillgan yr Ymgynghorydd Iechyd, Lles a Diogelu, a gadarnhaodd ei bod yn mynd ar ôl ymatebion gan bobl ac y byddai'n cylchredeg y rhain unwaith y byddai wedi'u derbyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bill Crease ynglŷn â sut oedd mynediad at y rhyngrwyd i staff mewn ysgolion yn cael ei reoli a'i fonitro, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod gan bob ysgol bolisi defnydd derbyniol yr oedd gofyn i bob aelod o staff ei lofnodi, a bod y rhyngrwyd a'r mur gwarchod yn cael eu monitro yn Neuadd y Sir. Roedd adroddiad ar ddiogelwch cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol ac yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Cytunodd siarad gyda'r Ymgynghorydd Iechyd, Lles a Diogelu a darparu ymateb i'r Cynghorydd Crease yn dilyn y cyfarfod.

Cynigodd y Cynghorydd Bill Crease yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Paul Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud gyda'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 21. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL (GWE) 2021-2022

Diolchodd y Cadeirydd i GwE am y gefnogaeth y maent wedi'i darparu i arweinwyr ysgolion yn ystod y Pandemig ac am eu cefnogaeth barhaus i ysgolion Sir y Fflint wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (CiG).

Esboniodd Mr Martyn Froggett (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant) bod cyflwyniad wedi cael ei baratoi i ychwanegu at yr adroddiadau sydd ynghlwm wrth y rhaglen. Cyflwynodd Phil McTague (Arweinydd Craidd Uwchradd) a David Edwards (Arweinydd Craidd Cynradd), a fyddai hefyd yn cynorthwyo gyda'r cyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar waith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion ar hyn o bryd, gwybodaeth am bolisïau a chymorth adfer ar ôl y pandemig i ysgolion gan Lywodraeth Cymru (LlC).

Rhoddodd yr Arweinydd Craidd Cynradd gyflwyniad a oedd yn trafod y meysydd canlynol:-

- Tri phrif flaenoriaeth GwE:-
    - Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru
    - Sicrhau prosesau hunanwerthuso cadarn
    - Arolygiadau Estyn

- Cynradd - Cwricwlwm i Gymru
    - nodi ffactorau unigryw eu hysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar pwrpas
    - adolygu eu gweledigaeth, gwerthoedd ac ymddygiadau i gefnogi'r cwricwlwm
    - bod yn ystyriol o'r ystyriaethau allweddol e.e. elfennau statudol a gorfodol
    - adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm
    - ystyried rôl cynnydd ac addysgeg yn eu cwricwlwm
    - dechrau dylunio, cynllunio, treialu a gwerthuso pynciau newydd.

- Cynradd - Hunanwerthuso a sicrhau ansawdd

- Cynradd - Arolygiadau Estyn

Parhaodd yr Arweinydd Craidd Uwchradd gyda'r cyflwyniad a oedd yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Uwchradd - Cefnogaeth i'r Cwricwlwm i Gymru
    - Mae holl ysgolion Sir y Fflint wedi gwneud defnydd eang o'r rhaglen gefnogaeth ranbarthol
    - Mae ymgysylltiad da wedi bod â'r grwpiau cynllunio rhanbarthol / lleol.
    - Mae'r ysgolion wedi derbyn y cynnig o fewnbwn penodol ac unigryw gan dîm GwE ar addysgu a dysgu
    - Mae cydweithio ar gynnydd trwy glystyrau a thrwy gynghreiriau
    - Yn nhymor yr haf, ymgymerwyd ag adroddiadau 'Chwe Cham' (yn canolbwyntio ar ofynion y Gweinidog Addysg i symud ymlaen tuag at y CiG) gyda phob ysgol yn dilyn trafodaethau rhwng ysgolion a'u Hymgynghorwyr Gwella Ysgolion.

- Uwchradd - hunanwerthuso a sicrhau ansawdd

- Paratoi ar gyfer arolygiadau mewn ysgolion uwchradd o dan Fframwaith newydd Estyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst am gadernid a mesur gwrthrychol Arolygiadau Estyn, dywedodd Mr Martyn Froggett (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant), yn y gorffennol oherwydd bod Estyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau arholiadau roedd gwaith yr oedd y disgyblion wedi'i gwblhau yn yr ystafell ddosbarth wedi dod yn ail. Rŵan sylfaen tystiolaeth Estyn oedd y llyfrau yr oedd y disgyblion yn gweithio ohonynt ar y pryd, a'r gwersi yr oeddent yn eu cael a oedd yn cael eu cymedroli. Esboniodd sut y byddai hyn yn gweithio mewn ysgolion. Roedd GwE yn cefnogi ysgolion ond dywedodd y byddai'n cymryd rhywfaint o amser i sefydlu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd.

Esboniodd Mr Phil McTague (Arweinydd Craidd Uwchradd) mai'r amrywiad o fewn yr ysgol sydd fwyaf arwyddocaol ac esboniodd beth oedd GwE yn canolbwyntio arno. Rhoddodd wybodaeth am ddadansoddiad o lefel cwestiwn a fyddai'n galluogi strategaethau hyfforddiant i gael eu darparu i greu gwelliannau. Byddai'r data ar gyfer amrywiadau yn yr ysgol, y dadansoddiad o lefel cwestiwn ac arsylliadau ystafelloedd dosbarth yn gyrru cynnydd a safonau ymlaen. Teimlai bod hyn yn sicrhau atebolrwydd sy'n fwy seiliedig ar ymchwil mewn ysgolion yn hytrach na chymharu cynnydd un ysgol yn erbyn y llall, yn enwedig gan mai un elfen o berfformiad ysgol yw data.

Amlinellodd y Cynghorydd Dave Mackie ei farn am rôl Aelodau mewn Pwyllgorau Craffu a'r angen i ofyn cwestiynau ynglŷn ag adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor. Cododd bryder nad oedd y cyflwyniad a ddarparwyd yn berthnasol i'r adroddiad ond yn hytrach yn canolbwyntio ar flaenoriaethau i'r dyfodol. Cododd nifer o gwestiynau am y data a ddarparwyd yn yr adroddiad a chwestiynodd yr angen am esboniadau ychwanegol i'r data.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod llawer iawn o ddogfennau wedi'u hatodi gyda'r adroddiad a oedd yn adlewyrchu gwaith y Gwasanaeth Gwella Ysgolion dros y 12 mis diwethaf. Darparwyd y cyflwyniad i roi sicrwydd i aelodau ynghylch sefyllfa bresennol y gwasanaeth yn y flwyddyn academaidd newydd, a'r ffocws wrth symud ymlaen i adeiladu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a adlewyrchir yn yr adroddiadau. Cynhaliwyd gwerthusiad ar lefel GwE, yr Awdurdod Lleol, trwy'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor i nodi cyfeiriad y gwasanaeth wrth fynd ymlaen. Roedd GwE yn wasanaeth a gomisiynir ar y cyd rhwng y chwe awdurdod lleol yng Nghymru ac roedd yn deall sylwadau'r Cynghorydd Mackie ynghylch gwerth am arian a dywedodd y dylai Aelodau fod yn sicr, mewn cyfuniad â'r adroddiad nesaf ar Hunan Werthuso, bod y Cyngor yn cael gwerth am arian. Mae cynnydd a pherfformiad cryf ysgolion yn cael ei weld yn y safonau a gyflawnir. Mae'n dangos y gefnogaeth eang y mae ysgolion a phenaethiaid yn ei chael gan GwE trwy'r ymgynghorwyr gwella ysgolion, a lefel sylweddol yr ymgysylltiad â'r dysgu proffesiynol a ddarperir gan GwE i ysgolion Sir y Fflint.

Cytunodd y Prif Swyddog fwydo sylwadau'r Cynghorydd Mackie ynglŷn â data cymharu yn ôl i'r Bwrdd Rheoli. Ond ychwanegodd bod yn rhaid i'r model gwasanaeth newid oherwydd bod sefyllfa ysgolion wedi newid wrth i addysg

statudol gael ei gohirio. Daeth arolygiadau i ben a gwnaeth LlC nifer o newidiadau gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles staff a disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf bu'r ffocws ar addysg ond o fewn cyfyngiadau'r Pandemig ac amlinellodd oblygiadau hynny. Roedd yr adroddiadau yn ceisio amlinellu dibenion craidd a sefyllfaoedd mewn ysgolion, ond roedd y ffocws bellach ar ddychwelyd i'r swyddogaeth gwella ysgolion, hunanwerthuso o ansawdd a safon addysg i ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ysgolion Sir y Fflint yn ymateb yn dda i'r ymyraethau ansawdd hynny a oedd yn sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni eu canlyniadau gorau posibl. Ble roedd pryderon, amlinellodd bod dulliau manwl mewn lle i ddarparu ymyraethau ychwanegol i sicrhau eu bod yn effeithiol.

Ymatebodd y Cynghorydd Mackie trwy ddweud mai rôl Aelodau oedd bod yn gyfaill beirniadol a darparu her. Teimlai mai'r elfen feirniadol oedd nad oedd GwE wedi darparu'r amcanion yr oeddent yn chwilio amdanynt, y llwybr y byddent yn ei ddilyn i gyflawni'r amcanion hynny a chyflawni'r gwelliant a nodwyd. Teimlai y dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu er mwyn i Aelodau ymgymryd â gwaith craffu priodol.

Dywedodd y Cynghorydd Bill Crease bod rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar werthuso perfformiad mewn arholiadau a chanolbwyntio ar berfformiad disgyblion yn lle yn apelio'n fawr ato, ond roedd heriau ynghlwm wrth hynny hefyd o ran gwerthuso cynnydd. Roedd yn cytuno â sylwadau'r Cynghorydd Mackie a dywedodd bod gallu gwerthuso a rhoi cynnig ar graffu'r adroddiadau mewn modd gwerthfawr yn anodd a dywedodd bod angen i'r data fod â mwy o ffocws.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gweld GwE fel cyfaill beirniadol cefnogol gyda disgwyliadau uchel o'n hysgolion. Roedd yn deall bod y Cwricwlwm i Gymru yn ystyried gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion, LlC, GwE a darparwyr gwasanaeth â diddordeb. Roedd hi hefyd yn deall bod LlC yn gweithio i ddarparu adnoddau i gefnogi'r Cwricwlwm hwn ac yn gwerthfawrogi'r cyflwyniad. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y gwaith a oedd wedi digwydd, ond roedd y cyflwyniad yn amlinellu'r hyn a fyddai'n digwydd wrth symud ymlaen. Darparodd GwE gefnogaeth werthfawr i ysgolion. Nid oedd pwynt terfyn addysg plentyn yn mynd i gael ei fesur ar sail canlyniadau arholiadau, ac roedd cymaint o bethau eraill mewn ysgolion yr oedd angen arsyllu arnynt.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion bod y dirwedd yn newid o atebolrwydd ffocws i edrych ar yr holl ddarpariaeth addysg ac mae eii rôl hi oedd craffu GwE. Dywedodd bod yr amcanion o fewn yr adroddiad ar gyfer y system gyfan ochr yn ochr â'r 5 Awdurdod Lleol arall er mwyn hybu safonau yn genedlaethol ledled Cymru. Roedd y gweithgarwch gweithredol manwl yn digwydd fesul ysgol, ac roedd yn croesawu cefnogaeth GwE i alluogi ymchwil ar gyfer pob ysgol unigol er mwyn sicrhau bod anghysonderau yn cael eu datrys, bod safonau yn codi a bod arfer orau yn cael ei rhannu ar draws pob ardal. Byddai siarad gyda dysgwyr, edrych ar dystiolaeth, datblygu sgiliau a lles yn codi safonau i bob dysgwr ledled Cymru . Byddai'r weledigaeth graidd, pwrpas, fframwaith atebolrwydd, cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn symud hyn ymlaen.

Roedd y Prif Swyddog yn cydnabod bod llwyth gwaith yr Aelodau wedi bod yn sylweddol oherwydd nifer a maint yr adroddiadau, gan fod GwE yn awyddus i rannu lefel y gwaith a thrawsnewid yn dilyn y pandemig ynghyd â gwybodaeth am weithredu'r Cwricwlwm newydd. Darparodd wybodaeth am y Bwrdd Rheoli a Chydbwyllgor GwE gan ddweud bod yr adroddiadau hyn wedi cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau hyn. Byddai'n mynd â'r adborth ynghylch maint, graddfa a ffocws yr adroddiadau gyda hi.

Cadarnhaodd yr Hwylusydd ei bod wedi nodi'r cwestiynau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Mackie ac y byddai'n eu trin fel camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at sylwadau'r Prif Swyddog a dywedodd pe bai adroddiadau gyda mwy o ffocws yn cael eu cynnwys yn yr argymhellion a phe bai angen mwy o wybodaeth, byddai modd ymdrin â hynny trwy gynnal gweithdy a fyddai'n galluogi swyddogion i friffio aelodau.

Cynigodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol gan GwE, gan nodi effaith gadarnhaol y gwasanaeth rhanbarthol o ran cefnogi ysgolion Sir y Fflint trwy'r pandemig, cynnal ffocws ar ysgolion effeithiol a llwyddiannus a chefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

## 22. ADRODDIAD HUNANWERTHUSO GWASANAETHAU ADDYSG 2021-22

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) drosolwg o Hunanwerthusiad Ebrill 2021 i Fawrth 2022. Oherwydd bod Estyn wedi gorfod gohirio ei arolygiadau, dywedodd nad oedd dau adroddiad gwerthuso blaenorol y portffolio wedi dilyn fframwaith Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol. Roedd y portffolio bellach wedi dychwelyd at y strwythur hwnnw wrth i Arolygiadau ail-ddechrau. Cynhaliwyd arolwg diwethaf yr Awdurdod yn 2019, ac roedd Estyn yn cynnig cwblhau'r gylched hon erbyn haf 2024. Darparwyd gwybodaeth am ffocws yr hunanwerthusiad a oedd yn nodi cryfderau, meysydd i'w gwella a sut oedd y gwelliannau hyn yn cael eu gwneud. Roedd fframwaith ardal Estyn, ynghyd â'r pedwar argymhelliad a wnaethpwyd, yn gynwysedig yn yr adroddiad ac roedd y portffolio yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn er gwaethaf yr heriau yn sgil y pandemig. Cafodd yr argymhellion eu mewnosod hefyd ym mlaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynllun busnes y portffolio.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dave Mackie am wybodaeth data, eglurodd y Prif Swyddog oherwydd bod y penderfyniad wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru (LlC), nid oedd modd darparu data ar gyfer ysgolion unigol. Cyfeiriodd at adran 1.01 yr adroddiad a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol mewn ysgolion a dywedodd bod gan bob ysgol uwchradd gynlluniau cefnogi mewn lle i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau yr oedd pob ysgol wedi'u nodi. Ym

mhwynt 1.03 yr adroddiad, darparwyd gwybodaeth am bresenoldeb a gwaharddiadau, a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Mewn ymateb i sylwadau pellach ynglŷn â data, esboniodd y Prif Swyddog bod yr amgylchedd gweithio wedi newid ac nad oedd yn gallu darparu tablau data ar ganlyniadau arholiadau. Roedd y modelau ar gyfer asesu disgyblion wedi newid a oedd yn golygu ei bod yn anodd cymharu data. Teimlai y byddai gweithdy i Aelodau yn fanteisiol er mwyn gallu darparu mwy o wybodaeth. Roedd y Bwrdd Ansawdd Lleol yn cael y trafodaethau manwl hyn ac yn y cyfarfod nesaf byddai prosesau monitro perfformiad ysgolion yn cael eu trafod. Byddai aelodau yn gallu ymuno â'r trafodaethau hyn a'r unig ddilysiad allanol oedd adroddiadau arolygiadau Estyn presennol. Roedd y gwerthusiad hwn yn grynodeb o berfformiad y portffolio dros y flwyddyn honno.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst at adran 1.05 yr adroddiad a oedd yn datgan mai'r rôl oedd herio ysgolion yn drwyadl a darparu cefnogaeth wedi'i thargedu. Dywedodd efallai y byddai'n gliriach i'r Pwyllgor pe bai esboniad yn cael ei ddarparu ynglŷn â sut y gwneir hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog y byddai hyn yn cyd-fynd ag adroddiad gan y Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion a fyddai'n darparu gwybodaeth ar y broses uwchgyfeirio. Yn y cyfarfodydd hynny cafodd sefyllfa bresennol pob ysgol ei thrafod yn fanwl gan dynnu sylw at faterion neu bryderon newydd gan roi cynllun mewn lle gan naill ai'r Awdurdod neu GwE i gefnogi'r ysgol honno.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gwella Ysgolion bod proses gefnogi glir a phroses uwchgyfeirio mewn lle mewn ysgolion. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor y llynedd ynglŷn â sut yr edrychir ar hyn yn rhanbarthol ac roedd y prosesau hynny wedi bod mewn lle trwy'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion ers nifer o flynyddoedd. Amlinellodd sut yr oedd 360 o gynlluniau cymorth a chefnogi ar gyfer llywodraethu, cyllid neu brosesau AD wedi cael eu darparu i ysgolion. Rhoddodd adroddiad am y cyfarfodydd a gynhelir bob pythefnos gydag Arweinydd Craidd GwE ar gyfer Cynradd ac Uwchradd yn ogystal â chyfarfodydd eraill gyda chydweithwyr o'r Awdurdod a GwE. Rhoddodd hyn drosolwg o themâu i'w sefydlu mewn ysgolion unigol neu nifer o ysgolion er mwyn medru darparu datblygiad proffesiynol penodol.

Cynigodd y Cynghorydd Bill Crease yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniad adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Portffolio Addysg ar ansawdd gwasanaethau addysgu ar gyfer cyfnod 2021-2022.

## 23. CRONFEYDD WRTH GEFN YSGOLION Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2022

Wrth gyflwyno'r adroddiad blynyddol, darparodd y Rheolwr Cyllid Strategol (Ysgolion) wybodaeth fanwl am lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn sydd gan ysgolion Sir y Fflint yn dilyn effaith y pandemig. Esboniodd bod yr adroddiad

wedi cael ei rannu gyda Phenaethiaid, y Fforwm Cyllideb Ysgolion a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Strategol wybodaeth fanwl am gronfeydd wrth gefn ysgolion ar draws y tri sector, tynnu sylw at gronfeydd wrth gefn ysgolion unigol a'r tueddiadau dros y 5 mlynedd diwethaf. Cyfeiriodd at 2020 pan oedd lefelau pryderus o isel o gronfeydd wrth gefn gan ysgolion a dywedodd bod y cynnydd dros y 2 flynedd diwethaf wedi cael ei groesawu. Digwyddodd hyn ar yr un pryd â chynnydd sylweddol yng nghyllid LlC i ysgolion dros y 2 flynedd diwethaf, ac fe amlinellwyd hyn yn adran 1.03 yr adroddiad. Roedd gan bob ysgol resymau penodol dros lefelau eu balansau a chynlluniau unigol mewn lle ar gyfer y dyfodol. Roedd yn rhaid cael cydbwysedd i sicrhau bod y cyllid yn cael ei wario ar addysg y disgyblion presennol, ac nad oedd symiau gormodol o arian yn cael eu cadw yn ôl heb resymau clir, fel nad oedd yr ysgol yn mynd i ddyled. Darparodd wybodaeth am rôl y Cyngor o ran monitro cronfeydd wrth gefn ysgolion ac esboniodd bod gofyn i bob ysgol gwblhau ffurflen datgan cronfeydd wrth gefn a Chynllun Tymor Canolig ar gyfer y 3 mlynedd nesaf yn amlinellu cynlluniau'r ysgol.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Dave Mackie ynglŷn â sicrhau bod tablau'n cael eu cyflwyno yn yr un fformat trwy gydol yr adroddiadau, cytunodd y Rheolwr Cyllid Strategol y byddai'n sicrhau bod hyn yn cael ei newid mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mackie ynglŷn â chronfeydd wrth gefn gwirioneddol yn cael eu camliwio oherwydd cyllid grant, dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol bod gwerth y grantiau wedi cael ei dynnu allan o'r cronfeydd wrth gefn y llynedd, ond roedd pethau'n wahanol eleni gan mai un o'r grantiau mwyaf oedd refeniw atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion ac ni chyrhaeddodd tan ddyddiau olaf mis Mawrth a oedd yn golygu na chafodd ysgolion gyfle i wario'r arian hwnnw. Byddai ysgolion wedi ymdrin â hwn yn wahanol gyda rhai yn ei wario ar unwaith ac eraill yn defnyddio grantiau i ariannu gwaith dros yr haf a olygai bod hwn yn dal i fod yn eu balansau. Dywedodd bod ei gyflwyno fel hyn yn tynnu sylw at lefel gynyddol yr arian y mae ysgolion wedi'i dderbyn a'r effaith bosibl ar gronfeydd wrth gefn ysgolion.

Mewn ymateb i gwestiwn am gynyddu treth y cyngor i gynorthwyo â diffygion yng nghyllidebau ysgolion uwchradd, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Strategol bod swm ychwanegol o gyllid wedi cael ei roi yng nghyllidebau ysgolion uwchradd yn 2020/2021, oherwydd argymhelliad 4 Estyn i fynd i'r afael â diffygion ysgolion uwchradd yn fwy effeithiol. Roedd hwn y tu allan i fformiwla cyllid uwchradd ac wedi'i dargedu'n benodol at leihau diffygion. Roedd wedi bod yn effeithiol ond roedd llawer o gyllid grant wedi cael ei ddarparu felly roeddent wedi cydweithio i wella'r sefyllfa ariannol yn yr ysgolion hynny. Yna darparodd wybodaeth am gyfarfodydd a gynhelir gydag ysgolion yn unol â'r Protocol ar gyfer Ysgolion â Diffygion Ariannol a darparwyd cefnogaeth i ysgolion nad oeddent yn gallu cael cyllideb gytbwys a chynnal cwricwlwm cytbwys.

Dywedodd y Cynghorydd Mackie bod hon yn sefyllfa anodd i ysgolion a holodd a oedd y Rheolwr Cyllid Strategol wedi gweld unrhyw resymau penodol pam mae ysgolion uwchradd bach i'w gweld yn cael anhawster. Mewn ymateb, teimlai'r Rheolwr Cyllid Strategol bod dau ffactor, ond roedd pob ysgol yn

wahanol. Roedd ysgolion bach yn gyfyngedig o ran arweinyddiaeth ac arbedion maint yn enwedig os yw'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu mewn ardal ddifreintiedig gyda theuluoedd mewn tlodi. Roedd yn cynnal gwaith ymchwil i hyn o ran cyllid a sut oedd tlodi yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol. Byddai'n trafod hyn yng nghyfarfod y Penaethiaid Uwchradd i weld sut y gellid targedu'r meysydd hyn yn y fformiwla, mwy na'r hyn oedd yno ar hyn o bryd.

Cynigodd y Cynghorydd Gladys Healey yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi lefelau cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2022.

## 24. PRYDAU YSGOL AM DDIM CYFFREDINOL I YSGOLION CYNRADD (UPFSM)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ac roedd yn cynnwys diweddariad am gyflwyniad y Rhaglen Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol i Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn Sir y Fflint. Roedd hwn yn ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru (LlC) gyda'r awdurdod yn dewis dull cyflwyno fesul cam. Roedd heriau arwyddocaol wedi bod gyda NEWydd ac ysgolion a oedd wedi cael eu cydnabod gan y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg a oedd wedi ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol yn diolch iddynt am eu gwaith caled. Darparodd wybodaeth am y Gweithgor a oedd wedi llwyddo i ddechrau cyflwyno'r rhaglen ym mis Medi 2022 i blant dosbarth Derbyn, gyda phlant ym mlynyddoedd 1 a 2 yn derbyn eu prydau o fis Ebrill 2023 ymlaen a phob plentyn cynradd erbyn 2024. Pwysleisiodd bod yn rhaid i'r teuluoedd hynny sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim barhau i wneud cais am y buddion hynny gan fod cymaint o gyllid yn mynd i mewn i ysgolion yn seiliedig ar yr hawl hwnnw i brydau ysgol am ddim. Roedd yn pryderu unwaith y byddai hon yn hawl gyffredinol, y byddai rhieni dan yr argraff nad oedd angen iddyn nhw wneud cais bellach, ond roedd hyn yn bwysig a gallai gael effaith niweidiol ar y cyllid a roddir i ysgolion.

Roedd gan y Cynghorydd Dave Mackie bryderon ynglŷn ag aelodau ychwanegol o staff a fyddai'n ofynnol a meddyliai tybed a ddylid cynnwys hynny ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gan ei fod wedi cael gwybod bod problemau o ran cael staff i gefnogi'r rhaglen prydau ysgol am ddim. Mewn ymateb cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod hwn yn faes sy'n peri pryder gan ddweud bod NEWydd wedi wynebu heriau sylweddol wrth recriwtio. Roedd y portffolio a'r ysgolion wedi gwneud popeth y gallent i gefnogi NEWydd ac nid oedd yn ymwybodol o unrhyw ysgol a oedd wedi methu â darparu'r cynnig prydau ysgol am ddim. Roedd hon yn broblem genedlaethol o ran swyddi gwag i staff arlwyo, cynorthwywyr ystafelloedd dosbarth, staff ysgolion arbennig ac roedd y mater yn cael ei fonitro wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno.

Yn gyntaf diolchodd y Cynghorydd Gladys Healey i Lywodraeth Cymru (LlC) am wneud hyn, yn enwedig yn yr hinsawdd presennol. Dywedodd, fel Llywodraethwr, eu bod wedi medru ysgrifennu at rieni i'w hatgoffa i hawlio eu prydau ysgol am ddim. Ychwanegodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod ymgyrch wedi bod yn y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan a gofynnwyd i ysgolion gadw'r neges hon ar eu gwefannau a'u newyddlenni.

Cynigodd y Cynghorydd Dave Mackie yr argymhelliad cyntaf a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst.

Cynigodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr ail argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

Cynigodd y Cynghorydd Mel Buckley y trydydd argymhelliad ac fe'i heiliwyd gan Gina Maddison.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithrediad y rhaglen prydau ysgol am ddim cyffredinol i ysgolion cynradd.
(b) Bod y pwyllgor yn nodi goblygiadau o ran adnoddau a'r risgiau a nodwyd mewn perthynas â'r rhaglen UPFSM; a
(c) Bod y pwyllgor yn cefnogi'r Polisi UPFSM a'i weithredu'n lleol.

## 25. ADOLYGU AMSERLEN CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Dywedodd y Cadeirydd ar gyfer y portffolio Addysg ac Ieuenctid bod 32 o eitemau busnes craidd ar yr amserlen gyda dyddiadau cwblhau wedi'u hamcangyfrif ynghyd â 7 eitem prosiect gyda dyddiadau dechrau a dyddiadau cwblhau wedi'u hamcangyfrif.

Dywedodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) pan gyflwynwyd Cynllun y Cyngor i'r Pwyllgor, roedd pryderon oherwydd mai 31 Mawrth 2023 oedd dyddiad adrodd diwedd blwyddyn nifer o'r camau gweithredu. Roedd yr Uwch Dîm Rheoli wedi adolygu'r dyddiadau hyn ac roedd rhai o'r camau gweithredu wedi cael dyddiadau cwblhau cynharach. Cadarnhaodd y byddai diweddariadau ar y rhain yn cael eu rhoi yn ystod y gylched adroddiadau perfformiad arferol.

Gofynnodd y Cynghorydd Dave Mackie, os oedd y dyddiad wedi pasio, a oedd hynny'n golygu bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau. Cadarnhaodd y Prif Swyddog bod hynny'n gywir.

Cynigodd y Cynghorydd Bill Crease yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cytuno i adolygu Rhan 1 Cynllun y Cyngor a diweddaru'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau, fel y dangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 26. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.24 pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**